

Dydd Iau Chwaraeon – Mererid Hopwood

Llawn yw 'mola bach o newyn,
ond fwyta' i ddim mo'r tost a'r menyn,
na'r cig moch na'r wy 'di ferwi –
mae'n ddydd Iau, mae'n ddiwrnod hoci.

Llawn yw'r gampfa o beryglon,
llawn yw'r cae o waed gelynyon,
llawn yw'r gawod o gorynnod,
llawn wyf i o ofn a chryndod.

Llawn yw 'nghoesau gwyn o gleisiau,
llawn yw 'nghorff o anafiadau,
llawn yw 'nghlust o ddim ond cintach
Mrs Jones a'i sgrech: CALETACH!!!

Llawn yw 'mhen o esgusodion,
llawn wyf i o fân obeithion
y daw corwynt bach o rywle
ac eira mawr i'm cadw adre.

Llawn yw 'nghalon i o wacter,
tybed, rywbryd, a ddaw amser
y bydd naid i fore Gwener
heb fod Iau yn dilyn Mercher?

Caneuon y Coridorau (Gwasg Carreg Gwalch, 2005)

Chwaraeon – Mari Lövgreen

Mae'n gas gen i chwaraeon,
Dwi'n berson diog iawn.
Mae'n well gen i fy sofffa
Drwy'r bore a phrynhawn.

Does gen i'm awydd neidio
Na chwysu chwaith, deud gwir.
Dwi ddim yn licio rhedeg
Na nofio am rhy hir.

Be ydi pwynt pêl fasged?
A golff a hoci iâ?
A gorfod chwarae rownderi
Bob dydd o'r gwyliau ha'?

A pheidiwch sôn am rygbi
A'r holl rowlio yn y baw.
Sa'n well gen i gorila
Yn swsian cefn fy llaw.

O rhaid, rhaid imi newid,
Mae'n bwysig bod yn iach
Ond os bydd rhaid ymarfer:
Wel, chydig yn ara' bach.

Geiriau Bach Chwareus (Gwasg Carreg Gwalch, 2016)

Ewro 2016 – Llion Jones

Ger y lan mae dagrau loes,
yno, gobeithion einioes
a foddwyd, a breuddwydion
dynion da aeth dan y don.

Yn y cof, sŵn drysau'n cau
yw tristwch taro trawstiau
a llaw ffawd yn dryllio ffydd
ar gaeau'r siom dragywydd.

Hen hanes nawr yw hynny,
o hafau hesb Cymru fu
cyniwair mae cân newydd
a'r haf hwn yw Cymru Fydd.

Yn y Rhyl, Rhosneigr, Rhos,
Garnant, Bagillt a Gurnos,
Bedwas, Bala, Llanboidy,
mae Cymru'n un ynom ni.

Ag Ewrop ar y gorwel,
da yw byw ym myd y bêl,
ciliwch o dir torcalon
yn un dorf a hwylio'r don.

Llion Jones, *Bardd ar y Bêl* (Cyhoeddiadau Barddas, 2016)

Cân Shane (Detholiad) – Myrddin ap Dafydd

Caeau y wlad sy'n culhau –
lle main sydd rhwng lumanau;
mor benstiff pob amddiffyn
â lein y dacl yno'n dynn,
ond rhowch hawl i'r diawl bach da
am ennyn – a 'dio'm yna.

Mor esmwyth â'r tylwyth teg
drwy rwyd y daw ar redeg
a hanner llam, chwarter lle
yn gyflym droith yn gyfle;
enfys bert yr ystlys bell
yn llawn pelydrau'r llinell.

Hwn diclith ffordd drwy daclwyr;
y gwalch sydd o gyrraedd gwŷr:
naid neu gic, newid un gêr
a dacw faes dwy acer
a lein wen – mae'i elyn o
yn dal ei ben mewn dwylo ...

Sgwarnog yr Ogi-Ogi,
cawr y trics sy'n curo tri
a'n baich sy'n her i'r bychan–
nid mawr yw'r mawr ymhob man;
dewin lled ewin o dir –
'mond olion mynd a welir.

Myrddin ap Dafydd, *Bore Newydd* (Gwasg Carreg Gwalch, 2008)

Hillsborough, 1989 – Alan Llwyd

Ar ôl y gêm disgwyliem gael
adroddiadau a phenawdau'n y wasg
a lluniau o'r goliau i gyd;
disgwyliem weld y sgiliau
a ddangosai rhai o'r chwaraewyr,
a'r rhannau gorau o'r gêm,
yn hwyrach ar y teledu y noson honno;
ac ar ôl y gêm disgwyliem
i gefnogwyr brwdfrydig fynegi
eu gorfoledd ym muddugoliaeth
y tîm a ddilynent, meddwi o lawenydd,
wrth ddatlu'r achlysur, crochleisio
hyd oriau mân y bore.
Y peth olaf y disgwyliem ei weld
oedd llun o rywun yn rhoi
blodau ar arch ar ôl gêm bêl-droed.

Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif* (Cyhoeddiadau Barddas, 2000)